



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service




PECYN GWEITHGAREDDAU DIOGELWCH TÂN



LARYMAU MWG

Oes gennych larwm mwg gweithredol gartref? Oes Nac Oes

Os nad oes gennych larwm mwg, cysylltwch â'ch Gwasanaeth Tân ac Achub Lleol i gael Archwiliad Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref am ddim



0800 169 1234

1. Pa mor aml y dylech brofi eich larwm mwg i weld a yw e'n gweithio?

Bob wythnos

☐

Bob mis

☐

Bob dydd

☐

Ar wal

☐

Ym mhob ystafell

☐

Ar y nenfwd

☐

2. Lle dylid lleoli larymau mwg?

3. A ddylech chi dynnu'r batri o'ch larwm mwg a'i ddefnyddio ar gyfer rhywbeth arall unrhyw bryd?

Dylwn

☐

Nac Dylwn

☐

BETH I'W WNEUD MEWN ACHOS O DÂN

-  Peidiwch chi â mynd i'r afael â thân. Gadewch y gwaith hwn i'r gweithwyr proffesiynol
-  Cadwch eich pen a gweithredwch ar unwaith, anfonwch bawb allan cyn gynted ag y bo modd
-  Peidiwch â gwastraffu amser yn edrych beth sydd wedi digwydd na chwilio am eich pethau gwerthfawr
-  Os oes mwg – cadwch yn isel i'r llawr lle mae'r aer yn gliriach
-  Cyn agor drws – gwiriwch a yw'n gynnes. Os yw'n gynnes, peidiwch â'i agor – bydd tân ar yr ochr arall
-  Ffoniwch 999 cyn gynted ag yr ydych allan o'r adeilad



PEIDIWCH BYTH Â GWNEUD ALWADAU BRYD FFUG. NI ALL INJAN DÂN FOD MEWN DAU LE AR YR UN PRYD!

PWY DDYLECH CHI ALW?

Disgrifiwch sefyllfa lle byddech chi'n galw'r...




GWASANAETH TÂN



GWASANAETH AMBIWLANS



HEDDLU



GWYLLWYR Y GLANNAU



GWASANAETH ACHUB O'R MYNYDDOEDD

ADNABOD EICH RHIFAU

Mae'n bwysig gwybod eich enw a'ch cyfeiriad rhag ofn fydd angen i chi ffonio ni.

Os nad ydych gartref ceisiwch edrych am enw'r stryd neu enw'r adeilad er mwyn i'r rhai sy'n cymryd galwadau yn gwybod ble rydych chi.

Llenwch y ffurflen hon a'i chadw mewn lle diogel iawn.

ENW

FFÔN

CYFEIRIAD

CÔD POST

DYDDIAD GENI

DIOGELWCH TRYDANOL

- ⚡ Gwnewch yn siŵr nad yw eich socedi plygiau yn cael eu gorlwytho
- ⚡ Sicrhewch nad yw plygiau a socedi wedi cael eu difrodi
- ⚡ Diffoddwch eich offer trydanol bob tro pan nad ydynt yn cael eu defnyddio

13 AMP


**TEGELL
PEIRIANT SYCHU GWALLT
MICRODON
TOSTIWR
HAEARN SMWDDIO
HWFER
PEIRIANT GOLCHI DILLAD**

3 AMP


**FFÔN SYMUDOL
SYTHWYR GWALLT
CONSOL GEMAU
CYFRIFIADUR PERSONOL
CHWARAEWR CRYNO
DDISGIAU
FFÔN
TELEDU**

Ysgrifennwch enwau'r eitemau uchod yn y bylchau


Cyfrifwch y gwerthoedd i sicrhau nad yw'r cyfanswm yn fwy na 13 Amp




CYFANSWM =




CYFANSWM =



CYFANSWM =



CYFANSWM =



DIOGELWCH YN Y GEGIN COFIWCH!!



Lle i goginio, nid chwarae, yw'r gegin



Cadwch lygad yn gyson ar y bwyd rydych chi'n ei goginio



Mae diffyg canolbwyntio yn beryglus



Peidiwch byth â rhoi dim byd metel yn y ficrodon




Cadwch lieiniau te a chlytiau yn ddigon pell o'r popty a'r hob



Defnyddiwch amserydd pan fyddwch chi'n defnyddio'r ffwrn i goginio



Cadwch y ffwrn, y pentan a'r gril yn lan ac yn weithredol.
Gall haenau o fraster a saim gynnu tân



BLE MAE'R PERYGLON

Rhowch gylch o gwmpas tri pherygl yn y llun uchod



BLE MAE'R PERYGLON

Rhowch gylch o gwmpas tri pherygl yn y llun uchod

RHESTR WIRIO AMSER GWELY

- ☐ Caewch ddrysau mewnol yn y nos er mwyn atal tân rhag lledu
- ☐ Diffoddwch offer trydanol a thynnwch y plygiau oni bai eu bod i gael eu gadael ymlaen – e.e. eich rhewgell. Gwnewch yn siwr bod eich popty wedi ei ddiffodd
- ☐ Peidiwch â gadael y peiriant golchi ymlaen
- ☐ Trowch y gwresogyddion i ffwrdd a defnyddiwch gardiau tân
- ☐ Diffoddwch ganhwyllau a sigaréts yn iawn
- ☐ Sicrhewch fod yr allanfeydd yn glir bob amser
- ☐ Cadwch allweddi'r drysau a'r ffenestri lle gall pawb ddod o hyd iddynt yn hawdd



CYNLLUN DIANC



- ➔ Cynlluniwch lwybr dianc a gnewch yn siwr bod pawb yn gwybod sut i ddianc
- ➔ Gofalwch fod yr allanfeydd yn glir
- ➔ Y llwybr gorau yw'r ffordd arferol i mewn ac allan o'ch cartref
- ➔ Meddyliwch am ail lwybr rhag ofn i'r un cyntaf gael ei rwystro
- ➔ Cymerwch ychydig o funudau i ymarfer eich cynllun dianc
- ➔ Adolygwch eich cynllun os bydd dyluniad eich cartref yn newid

Tynnwch lun o gynllun eich cartref isod. Cofiwch ddangos y llwybrau dianc

Lawr llawr

Lan llofft

Y TRIONGL TÂN



Pa air sy'n gweddu'r disgrifiad?

Ysgrifennwch y rhifau cywir yn y blychau isod



trwy ffenestri a drysau agored



gan ffynonellau megis gwreichion, matsis, fflamau ac arwynebau poeth fel gwresogyddion



hylifau, nwyon a solidau fflamadwy megis papur, pren, petrol neu nwy


Os byddwch yn dileu rhan o'r triongl tân, bydd y tân yn diffodd. A fedrwch chi ddefnyddio hyn i esbonio:

Sut gellir atal tân mewn coedwig drwy glirio ardaloedd o goed?

Sut gellir atal tân mewn tŷ?

Pam fod dillad sydd ar dân yn diffodd pan eich bod yn stopio, disgyn a rholio?


BETH I'W WNEUD OS YW EICH DILLAD AR DÂN



Peidiwch â rhedeg o gwmpas, bydd hyn yn gwneud y fflamau'n waeth



Gorweddwch i lawr. Mygwch y fflamau â defnydd trwm, fel cot neu flanced



Rholiwch o gwmpas ar y llawr, mae'n fwy anodd wedyn i'r tân ymledu



CYMORTH CYNTAF AR GYFER LLOSGIADAU



- +** Stopiwch y broses losgi cyn gynted â phosib. Gallai hyn olygu tynnu'r person o'r man, diffodd y fflamau gyda dŵr, mygu fflamau â blanced neu gychwyn y broses Stopio, Cwmpo a Rholio. Peidiwch â'ch rhoi eich hun mewn sefyllfa lle gallwch chi gael eich llosgi hefyd
- +** Tynnwch unrhyw ddillad neu emwaith yn ymyl y croen sy wedi'i losgi. Ond peidiwch â cheisio tynnu unrhyw beth sy'n sownd i'r croen a losgwyd, gan y gallai hyn achosi mwy o niwed
- +** Dylech oeri'r llosg gyda dŵr rhedegog oer neu lugoer am 20 munud cyn gynted â phosibl ar ôl i'r anaf ddigwydd. Peidiwch byth â defnyddio rhew, dŵr gydag iâ, nac unrhyw eli na sylweddau seimllyd fel menyn. Rhowch gel ar gyfer llosgiadau ymlaen os oes gel ar gael yn eich pecyn cymorth cyntaf
- +** Cadwch eich hun neu'r unigolyn dan sylw yn gynnes. Defnyddiwch flanced neu haenau o ddillad, ond peidiwch â'u gosod ar fan sy wedi cael anaf
- +** Gorchuddiwch y llosg â phlastig glynu. Rhowch haen o blastig glynu dros y llosg, yn hytrach na'i lapio o gwmpas coes neu fraich. Gellir defnyddio bag plastig clir a glân ar gyfer llosg ar eich llaw
- +** Ar gyfer llosg ar wyneb neu lygaid, dylech eistedd yn unionsyth gan osgoi gorwedd am gymaint o amser â phosibl, gan y bydd hyn yn lleihau chwyddo
- +** Ceisiwch gyngor gan y GIG / Gwasanaeth Ambiwylans Cymru bob amser

BETH I'W WNEUD A BETH I'W OSGOI WRTH GYNNAU TÂN

Cam Gweithredu	Gwneud ✓	Peidio ✓
Tynnwch unrhyw ddillad sy'n agos at y man sy wedi llosgi		
Rhowch hufen croen / menyn ymlaen		
Defnyddiwch ddŵr wedi'i oeri / ddŵr llugoer i dynnu'r gwres o'r llosg		
Ceisiwch gymorth gan GIG		
Defnyddiwch flancedi i gadw'n gynnes		
Defnyddiwch iâ i oeri'r llosg		
Dywedwch wrth oedolyn / eich unigolyn cymorth cyntaf enwebedig		

CREU TÂN GWERSYLL YN DDIOGEL

- 🔥 Dewisiwch man glir, yn bell o goed a llwyni
- 🔥 Gwnewch yn siwr nad oes canghennau uwchben
- 🔥 Ceisiwch ddewis rhywle lle mae cysgod gwynt
- 🔥 Peidiwch byth ag adeiladu tân yn rhy agos at wyneb craig neu glogwyn er mwyn osgoi llosgi'r amgylchedd naturiol
- 🔥 Defnyddiwch gylch tân os yw ar gael neu gwnewch gylch gyda cherrig, i gynnwys y lludw
- 🔥 Cadwch unrhyw goed tân ychwanegol a gasglwyd mewn lle ar wahân i'r lle mae'r tân
- 🔥 Gwnewch yn siwr bod bwcedaid o ddŵr neu dywod gerllaw i ddiffodd y tân



I gychwyn tân bydd angen:




GOLEUAR

brigau bach, dail sych, nodwyddau, rhisgl, naddion pren neu bapur os oes gennych rai. Dylai'r rhain losgi ar unwaith wrth eu goleuo



GOLEUAR

coed tân bach



COED TÂN

y tanwydd sy'n cadw'r tân ynghyn, defnyddiwch rai bach i ddechrau, ac yna eu cynyddu o ran maint unwaith bydd tân yn llosgi'n dda

Mae dull babell a chroesymgroes yn boblogaidd ac i'w gweld yn effeithiol gan eu bod yn gadael i'r awyr gylchdroi a'r tân i gynyddu'n araf.

I ddechrau, gosodwch y goleuar yng nghanol y cylch

Gosod y coed tân bach yn fel eu bod yn gorffwys yn ysgafn mewn patrwm croesymgroes dros y goleuar. Fel arall gosodwch nhw mewn siâp pabell o gwmpas y goleuar

Adeiladwch sawl haen o oleuar yn yr un siâp gan sicrhau bod lle i'r aer gylchredeg



Gadewch bwlch wrth y gwaelod i oleuo'r goleuar. Cynnau'r gwaelod yw'r ffordd orau gan fod fflamau'n llosgi tuag i fyny

Parhewch i ychwanegu haenau newydd nes bod y tân yn llosgi'n dda

Ychwanegwch y darnau o bren mwy yn yr un modd ac y dechreuoch y tân i'w gadw i losgi'n dda

CROESYMGROES

PABELL



TÂN GWERSYLL DIOGEL NEU ANNIOGEL?

PEIDIWCH BYTH Â

-  Gadael eich tân heb neb i ofalu amdano â pheidiwch a'i ganiatáu i droi'n goelcerth
-  Adeiladu tân gwersyll dan amgylchiadau hynod o wyntog
-  Adeiladu eich tân ar lethr tuag i fyny
-  Thaflu plastig, gwydr neu alwminiwm i'r tân

BOB AMSER

-  Sicrhewch fod eich tân yn cael ei ddiffodd yn llwyr
-  Arllwyswch ddŵr dros y golosg ar ôl iddyn nhw gael eu diffodd a chymysgwch bridd gyda'r lludw nes bydd y tân wedi'i ddiffodd yn llwyr
-  Gwnewch yn siŵr bod oedolyn yn goruchwyllo'r tân

Diogel Anniochel



Diogel Anniochel



Diogel Anniochel



Diogel Anniochel



Diogel Anniochel



Ticiwch y blwch i ddweud a yw'r tân gwersyll yn ddiogel neu'n anniochel

ATEBION

LARYMAU MWG

1. Bob wythnos 2. Ar y nenfwd 3. Na Ddylwn

PWY DDYLECH CHI ALW?

Enghreiffiau o bryd dylech chi alw'r...

GWASANAETH TÂN

Eiddo neu annedd ar dân, gwrthdrawiad ceir lle mae rhywun yn methu dod allan, rhywun yn sownd mewn lifft

GWASANAETH AMBIWLANS

Pan fydd rhywun yn ddifrifol sal, neu wedi cael anaf – yn cael anhawsterau anadlu, gwaedu difrifol, adwaith difrifol achos alergedd, llosgiadau difrifol

HEDDLU

Dwyn / lladrata, gwrthdrawiad ceir lle nad oes anafusion, ymosodiad neu ddifrod troseddol

GWYLLWYR Y GLANNAU

Os bydd rhywun mewn trafferth ar yr arfordir neu ar lan y môr – wedi cael eu hynysu gan y llanw, eu hysgubo allan i'r môr, cwmpo o glogwyn

GWASANAETH ACHUB O'R

MYNYDDOEDD Pan fydd rhywun ar goll neu wedi cael anaf yn y mynyddoedd neu mewn lle diffaith / amghysbell

BLE MAE'R PERYGLON – CEGIN



BLE MAE'R PERYGLON – YSTAFELL WELY



Y TRIONGL TÂN

- 2** trwy ffenestri a drysau agored
- 3** gan ffynonellau megis gwreichion, matsis, fflamau ac arwynebau poeth fel gwresogyddion



- 1** hylifau, nwyon a solidau fflamadwy megis papur, pren, petrol neu nwy

Sut gellir atal tân mewn coedwig drwy glirio ardaloedd o goed? **Drwy glirio'r coed ni fydd gan y tân danwydd i'w losgi**

Sut gellir atal tân mewn tŷ? **Tynnwch y gwres drwy oeri'r tân â dŵr**

Pam fod dillad ar dân yn diffodd pan eich bod yn stopio, disgyn a rholio? **Mae rholio o gwmpas ar y llawr /mygu'r tân gyda blanced amddifadu'r tân o ocsigen**

BETH I'W WNEUD A BETH I'W OSGOI WRTH GYNNAU TÂN

Cam Gweithredu	Gwneud ✓	Peidio ✓
Tynnwch unrhyw ddillad sy'n agos at y man sy wedi llosgi	✓	
Rhowch hufen croen / menyn ymlaen		✓
Defnyddiwch ddŵr wedi'i oeri / ddŵr llugoer i dynnu'r gwres o'r llosg	✓	
Ceisiwch gymorth gan GIG	✓	
Defnyddiwch flancedi i gadw'n gynnes	✓	
Defnyddiwch iâ i oeri'r llosg		✓
Dywedwch wrth oedolyn / eich unigolyn cymorth cyntaf enwebedig	✓	

TÂN GWERSYLL DIOGEL NEU ANNIOGEL?

